Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

RCM Cymru

GIG Cymru NHS Wales | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Brechlynnau ar gyfer mamau

## Pam brechu?

Mae brechiadau'n achub bywydau ac yn helpu i amddiffyn mamau a'u babanod rhag rhai clefydau difrifol.

Mae brechu yn ystod beichiogrwydd yn darparu imiwnedd hanfodol i'r baban yn ystod wythnosau cyntaf ei fywyd cyn iddo gael ei frechiadau arferol.

Mae'r holl frechlynnau ar gyfer mamau yn ddiogel i'w rhoi yn ystod beichiogrwydd ac mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) wedi cynnal profion trwyadl arnynt.



## Beth yw fy rôl fel bydwraig o ran brechu?

Mae bydwragedd yn ffynhonnell allweddol o **wybodaeth ddibynadwy** ac mae ganddynt ran hanfodol i'w chwarae wrth **hyrwyddo iechyd y cyhoedd** i fenywod beichiog a'u babanod a'u teuluoedd.

Gallwch ddarparu **gwybodaeth ddibynadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth** a fydd yn cefnogi menywod i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am frechiadau yn ystod beichiogrwydd.

## Pa frechlynnau sy'n cael eu rhoi yn ystod beichiogrwydd?

| Argymhellir y brechlynnau canlynol ym mhob beichiogrwydd. | |
|---|---|
| Pertwsis (y pas) | Rhwng 16 a 32 wythnos |
| Feirws syncytiol anadlol (RSV) | Rhwng 28 a 36 wythnos |
| Y ffliw | Ar unrhyw gyfnod o feichiogrwydd yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf |

***Mae'n bwysig bod brechlynnau'n cael eu rhoi ar yr adegau a argymhellir. Os bydd oedi wrth roi'r brechlynnau, gellir eu rhoi yn ddiweddarach yn ystod y beichiogrwydd ond gallent gynnig llai o amddiffyniad i'r baban. Dylech gefnogi menywod i ddal i fyny â dosau a fethir cyn gynted â phosibl.***

## Pa wybodaeth sydd ar gael i fenywod beichiog?

**Tudalen we Gwybodaeth am frechiadau yn ystod beichiogrwydd**

**Llyfryn Sut i amddiffyn eich hun a'ch babi**

## Pa wybodaeth sydd ar gael i fydwragedd?

- **Brechiadau yn ystod beichiogrwydd – Gwybodaeth i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol** https://icc.gig.cymru/frechiadau-yn-ystod-beichiogrwydd-proffesiynol
- **Adnoddau brechlyn a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn** https://icc.gig.cymru/brechlynnau-proffesiynol
- **e-Ddysgu Imiwneiddio** https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/e-ddysgu-imiwneiddio/
- **Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif i gefnogi trafodaethau ar ymddygiadau iach yn** https://mecc.publichealthnetwork.cymru/cy/amdanom-ni/ (safle allanol)
- **Coleg Brenhinol y Bydwragedd yn** https://rcm.org.uk/ (safle allanol, Saesneg yn unig)

Fersiwn 1 | Medi 2025 © Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda chydnabyddiaeth i Goleg Brenhinol y Bydwragedd) | ISBN: 978-1-83766-646-1